GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

ADNODDAU DYSGU'R COD TEITHIO AR GYFER Y CYFNOD SYLFAEN

Gallai adnoddau dysgu'r Cod Teithio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gyfrannu at gyfres o weithgareddau ehangach sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae cysylltiadau gyda deilliannau dysgu penodol o'r maes dysgu hwn yn *y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru yn cynnwys:*

Sgiliau

Datblygiad Personol

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- fod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol
- mynegi a chyfathrebu gwahanol deimladau ac emosiynau - rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill
- dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol

Datblygiad Cymdeithasol

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- fod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain
- ystyried goblygiadau geiriau a gweithredoedd iddynt hwy ac eraill
- datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r lleoliad / ysgol o ran ymddygiad, a deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus
- datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu
- gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd a dangos gofal a bod yn ystyriol

Ystod

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth trwy gymryd rhan mewn ystod o brofiadau, gan gynnwys:

- gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae, ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rhai a gychwynnir gan y plant
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys rôl arweinydd mewn grŵp bach, gwaith dysgu mewn pâr neu waith a wneir mewn tîm
- gwahanol adnoddau megis adnoddau printiedig a rhai rhyngweithiol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig, yn sensitif, yn greadigol ac yn reddfol
- siarad am yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol



- siarad am y penderfyniadau a wneir mewn storïau neu sefyllfaoedd, neu benderfyniadau personol, a myfyrio yn eu cylch gan awgrymu ymatebion eraill
- ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir
- defnyddio storïau neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau ynghylch pam y mae rhai pethau'n arbennig
- mynegi syniadau a theimladau'n greadigol, gan esbonio pam eu bod yn arwyddocaol
- siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod p'un ai yw'r dewisiadau hynny'n golygu bod gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth.

Lles

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- werthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill, a chyfrannu ato
- deall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau
- dangos gofal, parch a hoffter at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd
- gofyn am gymorth pan fo'i angen
- datblygu dealltwriaeth o'r peryglon a geir yn y cartref a'r amgylchedd sydd y tu allan iddo.

Ystod

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth trwy gymryd rhan mewn ystod o brofiadau, gan gynnwys:

- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu diogelwch eu hunain.